

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Rhiwlas
Rhiwlas
Bangor
Gwynedd
LL57 4EH**

Rhif yr Ysgol: 6612097

Dyddiad yr Arolygiad: 02/11/09

gan

**Edward Goronwy Morris
78283**

Dyddiad Cyhoeddi: 14/01/10

O dan rif contract Estyn: 1100909

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gynradd Rhiwlas fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Rhiwlas rhwng 2.11.09 a 4.11.09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Edward Goronwy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	6
Safonau	7
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	9
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	11
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	13
Arweinyddiaeth a rheolaeth	15
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	15
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	16
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	17
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	18
Cyfnod sylfaen	18
Cymraeg iaith cyntaf	22
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	23
Daearyddiaeth	24
Celf a dylunio	25
Addysg grefyddol	25
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	27
Atodiadau	28
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	28
2 Data a dangosyddion ysgol	28
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	29
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	30
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	31

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Ysgol wledig yw Ysgol Rhiwlas ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r cyffiniau. Fe'i lleolir rhyw bedair milltir i'r de o ddinas Bangor, Gwynedd. Gweithredir polisi iaith Awdurdod Lleol Gwynedd (ALI). Mae tua hanner y dysgwyr yn byw yng nghyffiniau'r ysgol a'r hanner arall yn cael eu cludo o ardaloedd gwledig cyfagos sydd o fewn dalgyloch yr ysgol. Nid yw'r ardal o dan anfantais economaidd nac ychwaith yn llewyrchus iawn. Mae 8% o'r dysgwyr wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr ALI o 12.8% a'r ganran ar draws Cymru o 17.5%. Tua traean yn unig ddaw o aelwydydd lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith. Mae cefndiroedd y dysgwyr a'u cyrhaeddiad ar fynediad i'r ysgol yn cynrychioli ystod lawn o amgylchiadau a chyrhaeddiad. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol oddeutu cyfartaledd y sir.
- 2 Ar hyn o bryd, mae 35 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn (B) 6. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn llawn amser yn unol â pholisïau'r ALI ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir dysgwyr i'r feithrin yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed; ar hyn o bryd, mae pump ohonynt yn mynychu'n rhan amser. Mae saith dysgwr wedi eu hadnabod fel rhai ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA). Nid oes un dysgwr yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol, nac ychwaith unrhyw ddysgwr sydd dan ofal yr ALI.
- 3 Bu pennaeth mewn gofal yn arwain yr ysgol ers mis Mai 2009. Yn ogystal â'r pennaeth sydd â gofal dosbarth am bedwar diwrnod yr wythnos mae un athrawes amser llawn arall sydd hefyd yn newydd i'r ysgol. Yn ychwanegol mae un athrawes rhan amser. Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng ychydig ers pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Hydref 2003.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 4 Prif nod ysgol Rhiwlas yw cynnal a chodi safonau cyflawniad dysgwyr drwy feithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol a dyngarol, datblygiad personol ac iechyd, gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill.
- 5 Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod, datblygir gallu'r dysgwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
- 6 Yn y flwyddyn ysgol bresennol, rhoddir blaenoriaeth i:
 - sicrhau fod darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a gofynion CA1 ar waith yn y dosbarth babanod
 - datblygu sgiliau mathemateg grŵp targed bechgyn
 - datblygu ysgol Werdd
 - sefydlu mwy o gysylltiadau cymunedol a datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o ddinasyddiaeth byd eang

Crynodeb

- 7 Mae Ysgol Rhiwlas yn gymuned hapus a gofalgwr sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth effeithiol i'r dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn elwa o brofiadau gwerthfawr ac o ymroddiad a gwaith cydwybodol y staff. Mae elfen o ragoriaeth yn ymddygiad ac ymagweddau'r dysgwyr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad. Maent yn gwneud cynnydd, yn cyflawni'n dda ac yn datblygu'n hyderus ddwyieithog.
- 8 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y cwestiwn arall dyfarnwyd gradd is.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 3
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 3
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 3
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

- 9 Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol (CC) ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrlon â data cenedlaethol fesul pwnc yn flynyddol. Mae asesiadau statudol athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009 yn dangos bod 90.0 y cant o'r dysgwyr yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) sef y lefel disgwylidig yn y tri phwnc - Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.0 y cant.
- 10 O ystyried y data dros dreigl tair blynedd, mae perfformiad yn ddau gyfnod allweddol yn rhagori ar ffigurau'r teulu, yr ALI a cenedlaethol. O gymharu gyda ysgolion tebyg sef yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddysgwyr sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, gosodir yr ysgol gyda'r 25% uchaf yng Nghymru mewn dwy allan o'r dair mlynedd diwethaf. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.
- 11 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
8%	84%	8%	0%	0%

- 12 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ar yr arolygiad blaenorol. Maent hefyd yn cymharu'n ffafriol gyda'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008.
- 13 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.
- 14 Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y cyfnod sylfaen fel a ganlyn:

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Gradd 2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2

- 15 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth cyfathrebu (TGCh)	Gradd 2	Gradd 3
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 3
Celf a dylunio	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 16 Ar draws yr ysgol gwna'r rhan fwyaf o'r dysgwyr gan gynnwys dysgwyr ag anghenion addysgu arbennig (AAA) gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial.
- 17 Mae sgiliau cyfathrebu llafar, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn dda. Defnyddiant eu medrau mathemategol, creadigol, datrys problemau a TGCh yn dda mewn amryw o bynciau. Mae cymhwysedd dwyieithog y dysgwyr yn dda.
- 18 Mae agwedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr tuag at ddysgu yn dda. Cydweithiant yn hapus a siriol gyda'i gilydd. Serch hynny, er bod gallu'r rhan fwyaf i weithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd eu hathrawon yn dda, nid yw eu gallu i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.
- 19 Mae elfen o ragoriaeth yn ymddygiad y dysgwyr. Gwelir rhagoriaeth yng nghwrteisi naturiol y dysgwyr ac yn eu cyfeillgarwch tuag at eu gilydd.
- 20 Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf oddeutu 93 y cant. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod lle i wella yma. Mae prydlondeb yn dda ac mae wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

- 21 Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr yn dda. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach. Dengys y dysgwyr ddealltwriaeth dda o faterion cyfle cyfartal ynghyd â pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.
- 22 Mae ymwybyddiaeth y dysgwyr o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Mae cyfraniad dysgwyr at fywyd y gymuned yn cyfoethogi eu profiad addysgol. Rhydd hyn sylfaen gadarn iddynt ym mhwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth a'u galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd o'u cwmpas.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 23 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
7%	79%	14%	0%	0%

- 24 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ar yr arolygiad blaenorol. Maent yn uwch na'r darlun cenedlaethol fel y'i cyhoeddwyd yn Adroddiad PAEM am 2007-2008, lle barnwyd ansawdd addysgu yn dda neu well (Gradd 1 a 2) mewn 83 y cant o wersi, ond yn is na'r ffigwr Gradd 1 sy'n 16 y cant.
- 25 Arsylwyd addysgu da yn y ddau ddsbarth. Nodwedd arbennig o gryf yw'r modd y mae athrawon ar draws yr ystod oed yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol iawn. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau diddorol a bywiog a thasgau sydd yn ysgogi diddordeb a chymhelliant dysgwyr gan gynnwys cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol. Yn y rhan helaethaf o'r gwersi, mae ôl cynllunio trylwyr, defnydd da o adnoddau, sgiliau holi da a defnydd cyson o ganmoliaeth i annog a chymell dysgwyr. Gwneir defnydd da o sgiliau'r cymorthyddion. Yn y nifer fechan o wersi lle nodwyd diffygion, nid yw'r gwaith wedi ei wahaniaethu'n ddigonol i sicrhau her i'r gwahanol alluoedd o fewn y dosbarth, ac nid yw'r amcanion yn ddigon clir i sicrhau cyfranogiad gweithredol y dysgwyr.
- 26 Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn y drefn o asesu. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol. Serch hynny, mae diffyg cysondeb yn y marcio ac nid yw'r sylwadau bob amser yn cynnig awgrymiadau ar sut i wella. Nid yw'r dysgwyr yn chwarae rhan digon amlwg wrth werthuso eu gwaith eu hunain. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol. Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni gyda gofynion statudol.
- 27 Mae'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion mwyafrif y dysgwyr ac yn gytbwys i bawb, gan gynnwys y rhai gyda AAA. Caiff gofynion statudol eu cwrdd.
- 28 Mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, yn gyffredinol nid yw'r cynlluniau gwaith cyfredol yn addas i sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu ar draws yr ysgol. Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigonol i'r trefniadau cwricwlwm diwygiedig ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

- 29 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr yn dda ac mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei hybu'n dda ar draws yr ysgol. Mae cydaddoli yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo addysg cysylltiedig â gwaith yn datblygu'n addawol. Er hyn mae lle i ddatblygu canfyddiadau menter a busnes ymhellach. Rhoddir sylw da i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.
- 30 Mae ansawdd y gofal, cefnogaeth ac arweiniad i ddysgwyr yn dda. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae cydweithrediad da rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir sy'n cyfrannu at les, iechyd a diogelwch y dysgwyr pan fyddant yng ngofal yr ysgol. Mae ansawdd y ddarpariaeth i dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys y rhai ag AAA yn effeithiol ac yn llwyr ymateb gofynion y Cod Ymarfer. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal yn weithredol ac yn effeithiol. Fe adlewyrchir hyn oll ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 31 Mae'r pennaeth dros dro yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Mae'n meddu ar werthoedd cadarn a gweledigaeth glir am y ffordd ymlaen a sut i ddatblygu'r ysgol. Caiff gefnogaeth dda gan y staff a'r llywodraethwyr. Mae nodau a pholisïau priodol yn eu lle sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Serch hynny oherwydd newidiadau ac absenoldeb nid ydynt yn llwyr weithredol. Mae'r llywodraethwyr yn cydnabod mae dechrau adnabod eu cyfrifoldebau parthed cynnig arweiniad strategol i'r ysgol a monitro cyraeddiadau'r dysgwyr y maent.
- 32 Mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i'r ysgol ac maent yn ymwybodol o'i chryfderau a'r agweddau i'w datblygu. Serch hynny nid oes strwythur clir hir dymor i'r broses hunan arfarnu. Nid yw'n manteisio'n ddigonol ar dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a dysgu. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi datblygu holiaduron i ganfod barn dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr am y ddarpariaeth addysgol. Mae'r blaenoriaethau a bennir ar gyfer gwella yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Serch hynny nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar y safonau a gyflawnir gan y dysgwyr a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn ymateb yr ysgol i'r materion allweddol i weithredu arnynt nodwyd yn ystod yr arolygiad yn 2003.
- 33 Er fod newidiadau sylweddol yn staffio'r ysgol yn ddiweddar mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol. Gwneir cyfraniad effeithiol iawn gan staff cynorthwyol. Mae gofod yr adeilad a'r safle yn ddigonol ar gyfer nifer y dysgwyr ac yn cynnig amgylchedd sy'n hybu'r dysgu a'r addysgu. Nid yw'r gofod tu allan wedi ei ddatblygu'n ddigonol i ymateb i her y Cyfnod Sylfaen. Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer pob oedran ac fe'u defnyddir yn effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r staff a'r CLI:

- A1 godi safonau TGCh a daearyddiaeth yng nghyfnod allweddol 2
- A2 sicrhau fod y dysgwyr yn dod yn gynyddol gyfrifol am eu haddysgu eu hunain;
- A3 gwneud gwell defnydd o asesu i sicrhau fod addysgu a dysgu yn gyson cwrdd ag anghenion dysgwyr o bob gallu;
- A4 datblygu cynlluniau gwaith hir dymor i sicrhau dilyniant, parhad a her i'r dysgwyr;
- A5 cryfhau'r broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella i ganolbwyntio ar godi safonau grwpiau penodol o ddysgwyr; a
- A6 gydweithio gyda'r ALI i sicrhau gofod allanol addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae argymhelliad A2, A3, A4, A5 ac A6 eisoes yn flaenoriaethau yn yr adroddiad hunan arfarnu neu'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY).

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

- 34 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 35 Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn asesiadau'r CC ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrion â data cenedlaethol fesul pwnc yn flynyddol. Gan fod nifer y dysgwyr a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2009 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno. Mae asesiadau statudol athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009 yn dangos bod 90.0 y cant o'r dysgwyr yn cyflawni'r DPC sef y lefel disgwylidig yn y tri phwnc Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.0 y cant.
- 36 O ystyried y data dros dreigl tair blynedd, mae perfformiad yn ddau gyfnod allweddol yn rhagori ar ffigyrau'r teulu, yr ALL a chenedlaethol. O gymharu gyda ysgolion tebyg sef yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, gosodir yr ysgol gyda'r 25% uchaf yng Nghymru mewn dwy allan o'r dair mlynedd diwethaf. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.
- 37 Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
8%	84%	8%	0%	0%

- 38 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ar yr arolygiad blaenorol. Maent hefyd yn cymharu'n ffafriol gyda'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan PAEM yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol, mae safonau'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac mae safonau'n rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.
- 39 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn cydweithredu gyda'i gilydd yn dda ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau heriol sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

- 40 Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Gradd 2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2

- 41 Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Gradd 2	Gradd 3
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 3
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 42 Gwna'r rhan fwyaf o'r dysgwyr, beth bynnag yw eu hoed, rhyw, gallu, cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol gan gynnwys y rhai gyda AAA, gynydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cyflawnant dargedau a nodau cytunedig. Wrth symud drwy'r ysgol mae'r rhan fwyaf yn sicrhau gwybodaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o'u medrau ac yn defnyddio'u sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd yn hyderus a llwyddiannus.
- 43 Ar draws yr ysgol mae sgiliau cyfathrebu llafar rhan fwyaf o'r dysgwyr gyda'i gilydd a gydag oedolion yn dda. Mae dysgwyr cyfnod allweddol 1 yn gwrando'n dda, yn cyfathrebu'n gyda'i gilydd ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Siarada'r rhan fwyaf yn hyderus gada'i gilydd a chydag oedolion. Mae iaith lafar rhan fwyaf dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn dda wrth iddynt fynegi eu hunain mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Trafodant eu gwaith gyda pharodrwydd. Maent yn gwrando'n astud ar yr athrawon ac ar ei gilydd. Darllenant yn y Gymraeg yn dda gyda'r rhan fwyaf yn darllen y rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth da o'r testun. Defnyddia'r mwyafrif eu sgiliau ysgrifennu'n briodol i gofnodi eu gwaith. Serch hynny mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn anwastad.
- 44 Mae medrau cyfathrebu dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn Saesneg yn gwella'n gynyddol ar draws y cyfnod allweddol. Darllena'r rhan fwyaf yn rhugl a hyderus a defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol wrth ymdrin a nifer o agweddau o'r cwricwlwm.
- 45 Ar draws yr ysgol mae medrau mathemategol a datrys problemau y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn datblygu'n dda. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau rhif, mesur a dadansoddi data i gefnogi eu gwaith mewn nifer o bynciau. Maent yn hyderus

wrth ddefnyddio TGCh i ymchwilio, arbrofi a chyflwyno gwybodaeth. Ar draws yr ysgol mae medrau creadigol dysgwyr yn dda.

- 46 Mae cymhwysedd dwyieithog y dysgwyr yn dda. Maent yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac yn ymdrin yn dda a thestunau yn y ddwy iaith.
- 47 Mae agwedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr tuag at ddysgu yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn cyfrannu ac yn canolbwyntio'n dda yn eu gwersi. Mae eu gallu i weithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd eu hathrawon yn dda. Serch hynny, yn gyffredinol nid yw gallu dysgwyr i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.
- 48 Mae elfen o ragoriaeth yn ymddygiad y dysgwyr. Rhoddant barch i'w hathrawon ac hefyd tuag at ymwelwyr â'r ysgol. Mae cynhwysiant yn rhan eglur o fywyd a gwerthoedd yr ysgol. Gwelir rhagoriaeth yng nghwrteisi naturiol y dysgwyr ac yn eu cyfeillgarwch tuag at eu gilydd. Mae'r dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd goddefgarwch a charedigrwydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu'n dda ac yn aeddfed. Mae hyn oll yn rhoi seiliau cadarn i'r dysgwyr ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'u cymuned.
- 49 Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf oddeutu 93 y cant. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod lle i wella yma. Mae prydlondeb yn dda.
- 50 Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr yn dda. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Cydweithia'r rhan fwyaf yn dda gyda'i gilydd. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach. Dengys y dysgwyr ddealltwriaeth dda o faterion cyfle cyfartal ynghyd â pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.
- 51 Mae ymwybyddiaeth y dysgwyr o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Er hyn mae lle i ddatblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o fenter a busnes ymhellach. Mae cyfraniad dysgwyr at fywyd y gymuned yn cyfoethogi eu profiad addysgol.. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd o'u cwmpas ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ym mhwsigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

52 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

53 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
7%	79%	14%	0%	0%

- 54 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos gwelliant sylweddol ar yr arolygiad blaenorol. Maent yn uwch na'r darlun cenedlaethol fel y'i cyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol PAEM am 2007-2008, lle barnwyd ansawdd addysgu yn dda neu well (Gradd 1 a 2) mewn 83 y cant o wersi, ond yn is na'r ffigwr Gradd 1 sy'n 16 y cant.
- 55 Arsylwyd addysgu da yn y ddau ddsbarth. Nodwedd arbennig o gryf yw'r modd y mae athrawon ar draws yr ystod oed yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol iawn. Mae hyn yn annog disgyblion i roi o'u gorau. Caiff pob un eu parchu a'u trin yn gyfartal.
- 56 Lle mae gan wersi nodweddion rhagorol, mae'r rhain yn cynnwys:
- cyflwyniadau diddorol a bywiog a thasgau sydd yn ysgogi diddordeb a chymhelliant dysgwyr gan gynnwys cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol;
 - cynllunio manwl a gweithgareddau pwrpasol sy'n cyfateb yn agos ag anghenion disgyblion; a
 - disgyliadau uchel athrawon, eu brwdfrydedd a gwybodaeth bwnc.
- 57 Yn y mwyafrif o wersi lle mae'r addysgu yn dda, mae nodweddion da yn cynnwys:
- gwersi yn cael eu cynllunio'n dda, gydag amcanion dysgu clir sydd yn heriol;
 - athrawon yn defnyddio adnoddau yn bwrpasol, yn rhoi dilyniant dysgu effeithiol ac yn sicrhau fod dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
 - defnyddio sgiliau holi da i asesu dealltwriaeth dysgwyr;
 - rheoli a threfnu y dysgwyr yn dda fel y gellir gwneud tasgau'n gyflym heb wastraffu unrhyw amser dysgu;
 - gwneud defnydd effeithiol o ymarferwyr i gefnogi dysgwyr unigol a grwpiau; ac
 - ymarferwyr yn hybu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gyda defnydd cyson o ganmoliaeth i annog a chymell dysgwyr.
- 58 Yn y nifer fechan o wersi lle mae diffygion yn yr addysgu:
- nid yw'r gwaith wedi'i wahaniaethu yn ddigonol i sicrhau her i'r gwahanol alluoedd; ac
 - nid yw dibenion y gweithgareddau bob amser yn glir i'r dysgwyr.
- 59 Mae athrawon yn darparu modelau rôl da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn hyrwyddo datblygiad hyfedredd dwyieithog dysgwyr yn effeithiol.
- 60 Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion statudol parthed asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd dysgwyr. Yn gyffredinol, mae systemau a gweithdrefnau'r ysgol yn arddel nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion.
- 61 Mae system dracio yn yr ysgol, ond hyd yn hyn nid yw'r wybodaeth am ddysgwyr unigol yn ddigon manwl i helpu athrawon i wahaniaethu gwaith yn effeithiol.

- 62 Mae portffolios o waith yn y broses o gael eu datblygu i gefnogi barnau athrawon parthed lefelau a safonau disgyblion. Mae trafodaethau wedi cychwyn gydag ysgolion eraill i gymedroli ac atgyfnerthu asesu yng nghyfnod allweddol 2.
- 63 Ymgwymerir a marcio yn weddol rheolaidd ar draws yr ysgol. Lle mae'n dda, mae sylwadau ysgrifenedig yn hysbysu dysgwyr yn eglur o'r hyn sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb ar draws yr ysgol a'r pynciau.
- 64 Nid yw dysgwyr yn chwarae rhan digon weithredol yn y camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn cynllunio gwelliant a chynnydd eu hunain. Mae'r ysgol wedi arenwi hyn fel ardal gogyfer datblygiad.
- 65 Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni gyda gofynion statudol. Maent yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd academiaidd a phersonol eu plant. Mae cyfleoedd i rieni ymweld â'r ysgol i drafod cynnydd eu plant yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion

- 66 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, gan i'r tîm arolygu arenwi diffygion mewn agweddau o gynllunio hirdymor sy'n sicrhau dilyniant a pharhad. Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigonol i'r trefniadau cwricwlwm diwygiedig ar gyfer ysgolion yng Nghymru.
- 67 Mae'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion mwyafrif y dysgwyr ac yn gytbwys i bawb, gan gynnwys y rhai gyda AAA. Caiff gofynion statudol eu cwrdd.
- 68 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysg ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.
- 69 Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar adolygu dogfennau polisi a chynlluniau gwaith mewn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i adeiladu ar yr arfer da hwn wrth weithredu'r newidiadau i'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw'r cynlluniau gwaith cyfredol yn addas i sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu. Yn ogystal, mae'r trefniadau presennol i hybu dysgu annibynnol dysgwyr wedi'u tan ddatblygu.
- 70 Cyfoethogir ac ehangir profiadau dysgwyr gan weithgareddau y tu mewn ac oddi allan i'r dosbarth. Mae gweithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth a diwylliannol effeithiol ar gael, sydd yn datblygu a rhyddhau potensial disgyblion. Mae clybiau, digwyddiadau ac ymweliadau yn cael eu mynychu a'u cefnogi'n dda. Ceir mynediad i hyfforddiant mewn gweithgareddau awyr agored mewn

canolfan leol. Trefnir tripiâu ymhell ac agos i gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a'u treftadaeth genedlaethol a rhyngwladol.

- 71 Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn gadarn. Mae'r cyfathrebu, sydd yn cynnwys cylchlythyron, llythyrau, cytundebau penodol ar gyfer gweithgareddau ac ymweliadau, yn gynhwysfawr. Mae'r Cytundeb Cartref ac Ysgol ac hefyd Llawlyfr y Rhieni yn gyhoeddiad sydd yn ymateb yn llawn â'r gofynion. Mae cysylltiadau a phartneriaeth dda gyda'r gymuned ac ysgolion y dalgylch.
- 72 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer astudio treftadaeth a diwylliant Cymru, drwy'r Cwricwlwm Cymreig, yn bodloni gofynion. Mae'n nodwedd dda drwy'r ysgol ac fe hybir Cymraeg achlysurol yn dda ar draws y cwricwlwm a thrwy gydol y dydd i sicrhau fod dysgwyr yn datblygu eu medruswydd dwyieithog yn dda. Mae nifer o weithgareddau, gan gynnwys eisteddfodau ysgol, hefyd yn cyfoethogi'r cwricwlwm.
- 73 Mae ethos cynhwysol i'r ysgol. Mae'r holl staff yn hybu cydraddoldeb mynediad, cyfle cyfartal, a chydraddoldeb hil yn gyson. Mae unrhyw achos o stereoteipio yn cael ei herio'n brydlon ac effeithiol. Mae strategaeth yr ysgol o ymyriad cynnar yn effeithiol.
- 74 Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Yn holl agweddau bywyd yr ysgol, darperir dealltwriaeth gynhwysfawr i ddysgwyr o onestrwydd, tegwch a pharch. Mae cydaddoli yn bodloni'r gofynion statudol ac mae amser i fyfrio ar y materion perthnasol iawn a godir. Mae datblygiad diwylliannol yn cael ei hybu'n effeithiol mewn sawl maes o'r cwricwlwm, ac mae cysylltiadau cryf gyda gwledydd eraill, megis Siapan. Mae cyfnodau cydaddoli ynghyd a'u hastudiaethau mewn celf ac addysg grefyddol yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad ysbrydol dysgwyr.
- 75 Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei hybu'n dda ar draws yr ysgol drwy bolisiâu a gweithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu. Rhoddir canllawiau clir i ddisgyblion am ymddygiad derbyniol ac agweddau cadarnhaol tuag at waith a thuag at ei gilydd. Mae'r ysgol yn herio anfantais gymdeithasol a stereoteipio yn ddyfal.
- 76 Mae'r ysgol ag amrediad dda o gysylltiadau â byd busnes i hyrwyddo addysg cysylltiedig â gwaith ac hefyd canfyddiadau galwedigaethol. Mae y drefniadaeth yma yn dra llwyddiannus ac yn datblygu yn addawol. Er hyn mae lle i ddatblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fenter a busnes ymhellach.
- 77 Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda. Mae nifer o weithgareddau ac astudiaethau ar y gweill ac mae'r ysgol wedi ymrwymo i egwyddorion Ysgolion Gwyrdd. Rhoddir sylw da i'r amgylchfyd drwy ymweliadau i Ganolfan Technoleg Amgen, Machynlleth, Canolfan Amgylcheddol Moel y Ci, "Caergylchu", Stad Cibyn, Caernarfon, ac hefyd drwy weithgareddau'r Clwb Garddio ac ardal wyllt yr ysgol. Yn ogystal, fe hybir dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn dda, gyda chyfraniadau at elusennau a chysylltiadau ag ysgol yn Siapan trwy gyfrwng cysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig.

- 78 Mae'r ysgol yn hollol ymrwymedig i hybu sgiliau dysgu gydol oes ac adfywio economaidd dysgwyr. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, anogir dysgwyr i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 79 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 80 Mae ansawdd y gofal, cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion yn dda. Mae hyn yn gryfder. Mae'r trefniadau ar gyfer gofal bugeiliol wedi'i llunio'n dda. O ganlyniad mae Ysgol Rhiwlas yn ysgol hapus lle mae dysgwyr a staff yn ymwneud yn dda â'i gilydd. Mae staff yn fodolau rôl da ac mae cysylltiadau da â'r gwasanaethau gofal yr ALI, iechyd cymunedol ac asiantaethau gwaith cymdeithasol.
- 81 I'r dysgwyr hynny sydd angen lefelau ychwanegol o gefnogaeth, mae trefniadau gofal yn effeithiol. Mae rhieni, asiantaethau allanol a dysgwyr yn gwerthfawrogi ansawdd uchel y gofal a'r arweiniad a roddir gan staff arbenigol ac eraill.
- 82 Mae perthnasoedd rhwng staff, rhieni, aelodau o'r gymuned leol a dysgwyr yn gadarnhaol iawn ac yn adeiladol. Mae gan yr ysgol bolisi 'drws agored' ac mae rhieni yn mynegi hyder yn y gofal caiff eu plant. Ceir polisi cartref ysgol da ar gyfer y dysgwyr. Mae cymdeithas Cyfeillion Ysgol yn gefnogol iawn wrth godi symiau sylweddol o arian i gefnogi darpariaeth.
- 83 Mae'r trefniadau ymsefydlu cadarn ar gyfer y plant sy'n ymuno â'r dosbarth meithrin yn eu helpu i setlo i mewn i'r ysgol yn gyflym ac yn hapus. Mae dysgwyr sydd yn ymuno â'r ysgol yn ystod y flwyddyn yn cael eu 'paru' gyda dysgwr hŷn i'w helpu i integreiddio i mewn i'r ysgol yn gyflym. Mae'r trefniadaeth ar gyfer trosglwyddo i Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd i fyfyrwyr a'r brofiadau gwaith ac hefyd i ddarpar athrawon o Brifysgol Cymru, Bangor i ymweld â'r ysgol.
- 84 Mae'r Cyngor Ysgol wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n cynrychioli barn disgyblion yn effeithiol. Etholir yr aelodau yn ddemocrataidd yn ôl y gofynion.
- 85 Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth bersonol ac arweiniad da drwy eu trefniadau addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd. Mae lles dysgwyr yn cael blaenoriaeth uchel. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i ofalu amdano. Ystyrir anghenion pob un yn ofalus. Mewn trafodaethau, mae'r dysgwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn i staff am arweiniad.

- 86 Mae cofrestri presenoldeb yn cael eu cwblhau yn briodol a phrydlon ar ddechrau sesiynau'r bore a phrynhawn. Hysbysir yr holl rieni y disgwylir i'r holl ddysgwyr fynychu yn rheolaidd a chyrraedd yn brydlon. Mae'r drefn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Mae gweithdrefnau i ddilyn i fyny absenoldeb, heb ei egluro yn brydlon, wedi'u hen sefydlu ac yn effeithiol. Mae cysylltiadau â thîm presenoldeb yr ALL yn fynych ac yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion Cylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gosod allan y gofynion ar gyfer cofnodi absenoldeb. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel a gweithdrefnau priodol i hybu ymddygiad da.
- 87 Mae gan yr ysgol drefniadau clir, wedi'u cofnodi'n dda, sydd yn cyfrannu'n briodol at ddiogelwch a lles disgyblion pan fyddant yn ei gofal. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd a chofnodir hwy'n briodol. Mae'r ysgol yn hybu ffordd o fyw iach a diogel yn ddyfal. Mae gweithdrefnau rhagorol yn eu lle i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n sâl neu sydd wedi cael anaf yn yr ysgol.
- 88 Mae trefniadau amddiffyn plant priodol yn eu lle gydag unigolion penodedig a llywodraethwr penodedig. Mae'r holl staff yn ymwybodol o arwyddion camdriniaeth posibl a'r gweithdrefnau penodol sy'n rhaid iddynt eu dilyn. Mae gweithdrefnau cwyno ac apelio perthnasol yn eu lle.
- 89 Mae ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys y rhai ag AAA yn effeithiol. Darperir cefnogaeth ychwanegol pryd a lle bynnag mae ei hangen. Mae trefniadau hyblyg sydd wedi eu rheoli yn dda i fodloni anghenion ychwanegol ddysgwyr, i mewn ac allan o'r ysgol.
- 90 Mae pob dysgwr sydd angen cefnogaeth yn cael ei adnabod a'i asesu cyn gynted â phosib yn ei fywyd ysgol. Mae hyn yn cynnwys profion priodol a chyfraniadau gan weithwyr arbenigol o asiantaethau allanol. Mae ansawdd y gefnogaeth unigol i'r holl ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn benodol ac yn effeithiol. Mae'r holl staff yn gweithio'n agos â rhieni a gofawyr. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion pob un ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai ag anawsterau ymddygiad a dysgu, a namau synhwyraidd a chorfforol, yn cael eu bodloni. Mae'r rheolaeth hynod o gyson a chadarnhaol o ymddygiad yn cyfoethogi'r ddarpariaeth addysg i'r holl ddysgwyr.
- 91 Beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig nac ieithyddol, mae dysgwyr yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Maent oll yn cael mynediad cyfartal i bob gwers a gweithgaredd. Mae polisïau statudol priodol yn eu lle. Hybir cysylltiadau hil da ac mae'r ysgol yn cydnabod a pharchu amrywiaeth hil a diwylliant. Amlygir hyn gan safon uchel yr arddangosfeydd a'r arteffactau o amgylch yr ysgol
- 92 Mae gan yr ysgol fesurau effeithiol yn eu lle i ddileu ymddygiad gormesol, yn cynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio ac aflonyddu. Mewn trafodaethau roedd dysgwyr yn gadarn yn eu cred na fyddai bwlio na gwahaniaethu o unrhyw fath yn cael ei oddef. Byddent yn hyderus wrth adrodd unrhyw ddigwyddiadau o'r fath gan wybod y byddent yn cael eu trin yn brydlon a theg.

- 93 Drwy'r ysgol rhoddir cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd da i'r dysgwyr, waeth beth yw eu hanghenion cymdeithasol, addysgol, ethnig ac ieithyddol. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau sydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda a gwerthfawrogiad o amrywiaeth o fewn y gymdeithas.
- 94 Mae'r ysgol yn sicrhau fod dysgwyr ag anableddau yn cael eu cynnwys yn llawn yn amgylchedd addysgu a dysgu yr ysgol. Mae cynllun mynediad anabl priodol a chlir yn ei le sydd yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion.

- 95 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 96 Mae'r pennaeth dros dro yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Mae'n meddu ar werthoedd cadarn a gweledigaeth glir am y ffordd ymlaen a sut i ddatblygu'r ysgol. Caiff gefnogaeth dda gan y staff a'r llywodraethwyr. Llwyddwyd mewn byr amser i sicrhau y cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleon cyfartal. Rhoddir blaenoriaeth uchel i sicrhau awyrgylch gartrefol a hapus ac ethos gofalgwr yr ysgol.
- 97 Mae nodau a pholisïau priodol yn eu lle sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac ar greu'r amodau i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Atgyfnerthwyd gweledigaeth y pennaeth gyda chymorth holl gymuned yr ysgol a'r Cyngor Ysgol i sicrhau fod datganiad cenhadaeth yr ysgol 'Dringo'r ysgol gyda'n gilydd mewn awyrgylch hapus a chynhaliol', yn cael ei adlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol.
- 98 Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Llwyddwyd i ennill ail-achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2008. Mae'r ysgol wedi ymrwmo ei hun i'r Cynllun Ysgol Werdd ac i egwyddorion Ysgol Iach. Mae'r staff wedi ymateb yn gadarnhaol wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- 99 Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r angen i ailystyried y targedau ysgol gyfan ar gyfer 2009 a 2010 i sicrhau eu bod yn dargedau cyraeddadwy a realistig.
- 100 Mae trefniadau rheoli perfformiad addas wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Serch hynny oherwydd newidiadau ac

absenoldeb nid ydynt yn llwyr weithredol. Darperir cyfleon da i staff i dderbyn hyfforddiant mewn swydd ac i ymweld ag ysgolion eraill i weld arfer dda.

- 101 Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion parthed rôl y corff llywodraethol yn natblygiad yr ysgol. Mae'r corff yn gefnogol i'r pennaeth dros dro, gydag aelodau yn barod iawn i gyfrannu trwy fynychu sesiynau o fewn yr ysgol i ganfod gwybodaeth ac i rannu'r cyfrifoldeb dros bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r ysgol. Trwy adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth ac ymweliadau llywodraethwyr unigol mae'r corff llywodraethol yn gynyddol wybodus am weithgareddau'r ysgol. Serch hynny, nid yw eu rôl fel cyfaill beirniadol wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Mae'r llywodraethwyr yn cydnabod mae dechrau adnabod eu cyfrifoldebau parthed cynnig arweiniad strategol i'r ysgol a monitro cyraeddiadau'r dysgwyr maent.
- 102 Mae'r corff llywodraethol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt ac mae'r polisïau perthnasol yn eu lle.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion.

- 103 Mae canfyddiadau'r tîm yn cyd-fynd a barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 104 Mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i'r ysgol ac maent yn ymwybodol o'i chryfderau a'r agweddau i'w datblygu. Serch hynny nid oes strwythur clir hir dymor i'r broses hunan arfarnu ac nid yw'n manteisio'n ddigonol ar dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i gryfhau'r broses gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y dysgwyr a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.
- 105 Rhoddir ystyriaeth yn flynyddol i ganlyniadau asesiadau'r Cyfnod Sylfaen a diwedd CA2, yn ogystal ag i ganlyniadau'r tasgau asesu mewnol a gynhelir ym mhob dosbarth.
- 106 Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi datblygu holiaduron i ganfod barn dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr am y ddarpariaeth addysgol. Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan yn y broses trwy drafod adroddiadau gan y pennaeth a thrwy ymweliadau â'r ysgol. Serch hynny nid ydynt ar hyn o bryd yn chwarae rhan digon gweithredol wrth drafod safonau cyflawniad y dysgwyr.
- 107 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn gytbwys a gonest. Mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu sydd ar y cyfan yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu. Serch hynny nid yw'n canolbwyntio'n ddigon penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y dysgwyr a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y cwestiwn arall dyfarnwyd gradd is oherwydd i'r tîm arolygu arenwi diffygion mewn agweddau o gynllunio hirdymor.

- 108 Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y Cynllun Datblygu Ysgol 2009-2010 a luniwyd gan y pennaeth mewn gofal a'r corff llywodraethol, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwylidig ynghyd â'r monitro arfaethedig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Serch hynny nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol yn nhermau cyflawniadau grwpiau o ddysgwyr.
- 109 Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn ymateb yr ysgol i'r materion allweddol i weithredu arnynt nodwyd yn ystod yr arolygiad yn 2003. Mae safonau yn y gwersi arsylwyd yn dangos gwelliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf ac mae safonau celf a dylunio ac addysg grefyddol wedi codi. Mae prydlondeb wedi gwella. Llwyddwyd i wella'r adnoddau, ystod ac ansawdd y profiadau a ddarperir ar gyfer y plant dan bump oed. Mae cynllunio byrdymor wedi gwella. Fodd bynnag nid yw'r cynlluniau hir dymor yn cynnig digon o arweiniad. Mae llawlyfr yr ysgol wedi ei ddiweddarau'n briodol ond nid oedd copi o adroddiad blynyddol y llywodraethwyr diweddaraf i'r rhieni ar gael yn ystod yr arolwg.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 110 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
- 111 Er fod newidiadau sylweddol yn staffio'r ysgol yn ddiweddar mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol. Mae athrawon wedi'u cymhwyso'n addas i addysgu pob agwedd o gwricwlwm yr ysgol. Maent yn frwdfrydig a gweithgar. Mynychant gyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd i ddiweddarau eu gwybodaeth a throsglwyddant agweddau priodol yn effeithiol i wella'r addysgu a'r dysgu. Defnyddir arbenigeddau aelod o staff rhan amser i ehangu profiadau dysgwyr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad y dysgwyr.
- 112 Gwneir cyfraniad effeithiol iawn i'r addysgu a safonau cyflawniad dysgwyr gan staff cynorthwyol. Cydweithiant yn effeithiol iawn gyda'r athrawon ac maent yn ymgymryd a'i cyfrifoldebau yn gydwybodol iawn. Mae holl staff atodol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol.
- 113 Gweithredir yn unol â'r gofynion statudol i ganiatáu amser digyswllt i'r athrawon. Gwneir defnydd effeithiol o'r amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth addysgol yn gyffredinol. Mae diffyg cefnogaeth weinyddol yn ychwanegu at bwysau gwaith y pennaeth, ac yn lleihau yr amser sydd ar gael i arwain.
- 114 Mae'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i adnoddau dysgu priodol sy'n cyfateb i ofynion eu profiadau dysgu a bod yr adnoddau hynny

sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol. Caiff adnoddau eu cyfateb yn dda gyda blaenoriaethau'r ysgol.

- 115 Mae'r adeilad a'r ystafelloedd dysgu yn cynnig safle briodol ar gyfer addysgu a dysgu da, a chefnogaeth i'r holl ddysgwyr. Mae arddangosfeydd yn gwneud i ddsbarthiadau edrych yn ddeniadol ac yn dangos fod yr ysgol yn gwerthfawrogi cyflawniadau y dysgwyr. Cedwir a chynhelir yr ysgol yn dda, ac mae safon glanweithdra yn uchel. Gwneir defnydd da o holl adeilad yr ysgol. Nid yw'r gofod tu allan wedi ei ddatblygu'n ddigonol i ymateb i her y Cyfnod Sylfaen. Mae prif fynedfa'r ysgol wedi ei ddatblygu'n ddiweddar yn unol â Chynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol.
- 116 Gosodir cyllideb yn dilyn arweiniad y pennaeth. Mae'r pennaeth a'r adran gyllid yn cydweithio'n agos er mwyn goruchwyllo gwariant gyda'r corff llywodraethol yn cael adroddiad llafar rheolaidd. Maent yn cydnabod nad ydynt hyd yn ddiweddar wedi chwarae rôl digon blaengar wrth adolygu penderfyniadau cyllidol. Serch hynny mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Cyfnod Sylfaen

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 117 Mae gan yr holl blant bron drwy'r Cyfnod Sylfaen ymddygiad a chymhelliad eithriadol o dda. Maent yn dangos hunanreolaeth effeithiol ac yn gweithredu tasgau yn ddiffwdan. Mae plant yn amlwg yn hapus i ddod i'r ysgol ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y dysgu. Ymatebant yn hynod o dda i oedolion ac i'w gilydd a chanolbwytiant yn dda gan weithio'n ddiwyd.
- 118 Mae plant newydd yn ymgartrefu'n fuan iawn ag arferion eu profiadau chwarae ysgol. Maent yn datblygu perthnasoedd da ag eraill ac yn cydweithio'n gyflym iawn gan rannu deunyddiau ac offer heb anghytuno. Mae'r ysbryd hwn o gydweithio yn sicrhau fod yr holl blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn unol â'u gallu ac yn datblygu lefelau da o hyder wrth wneud y tasgau a osodir iddynt.

Diffygion

- 119 Nid oes diffygion pwysig.

Sgiliau iaith a llythrennedd a chyfathrebu **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

- 120 Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl blant yn gwrando'n dda ar oedolion. Maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn dangos lefelau da o sylw wrth iddynt wneud hynny. Ymatebant yn dda i'r straeon a glywant; ac ar brydiau maent yn mynegi cyffro neu hiwmor neu yn medru cysylltu eu profiadau eu hunain â'r digwyddiadau yn y stori.
- 121 Yn eu tasgau dysgu mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando ar ei gilydd gyda diddordeb, naill ai wrth siarad am yr hyn a wnaethant neu pan rannant hanesion am ddigwyddiadau bob dydd. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda oherwydd gwrandawant yn ofalus gan ddirnad manylion yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud.
- 122 Wrth iddynt fynd drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl blant yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i fynegi eu hunain a gwneud eu hunain yn ddealladwy. Eglurant yn effeithiol i oedolyn beth yw eu tasgau, y llai abl yn syml, a'r mwy galluog yn defnyddio iaith fwy estynedig.
- 123 Wrth chwarae rôl mae plant hyn yn dechrau deall fod ffurf yr iaith lafar yn gallu newid yn unol â'r sefyllfa ar y pryd.
- 124 Mae bron yr holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau straeon. Edrychant ar luniau gyda phleser ac maent yn dechrau gweld bod perthynas rhwng llun a thestun.
- 125 Mae plant drwy'r Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn gynyddol ac maent yn mwynhau ystod o weithgareddau sy'n gwella eu sgiliau llaw cyn-ysgrifennu.

Diffygion

- 126 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad mathemategol **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

- 127 Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da mewn dealltwriaeth o iaith a therminoleg mathemateg. Mae llawer o'r plant hyn yn llwyddiannus wrth gyfrif hyd at bump ar hugain ac yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw rif yn cael ei fethu yn y dilyniant.
- 128 Mae bron yr holl blant yn datblygu eu cysyniadau mathemategol cynnar o 'mawr', 'bach', 'tal' a 'byr' yn gyflym. Mae'r holl blant yn mwynhau

gweithgareddau cyfrif ac yn ymuno gyda brwdfrydedd mewn rhigymau rhif, caneuon a gemau cyfrif.

- 129 Mae mwyafrif y plant yn gallu gwahaniaethu rhwng patrymau o wahanol fathau. Maent yn llwyddo i adnabod patrymau ac maent yn eu gweld mewn natur.
- 130 Drwy chwarae rôl mae plant yn ennill dealltwriaeth dda o arian drwy brofiadau siopa. Mae'r mwyafrif yn deall fod eitemau yn eu basged yn dwyn labeli gyda'u pris ac maent yn cynnal gweithgareddau cyfnewid arian yn llwyddiannus.
- 131 Mae'r rhan fwyaf o blant yn dosbarthu siapiau ac yn nodi'n gywir pa un sy'n wahanol mewn patrymau dilyniannol. Enwant ystod eang o siapiau dau-ddimensiwn gan ddisgrifio eu nodweddion. Enilliant dealltwriaeth dda o'r cysyniad o gyfaint wrth ddisgrifio pryd bydd llestri yn llawn, yn wag ac yn hanner llawn.

Diffygion

- 132 Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 133 Drwy'r Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos chwilfrydedd mewn llawer o agweddau'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.
- 134 Mae plant ar draws y Cyfnod Sylfaen yn gwybod sut mae anifeiliaid a phobl, yn tyfu. Deallant, wrth iddynt dyfu'n hŷn, y bydd eu cyrff yn newid.
- 135 Mae mwyafrif y plant yn deall y cysyniad o linell amser ac yn deall eu bod yn gallu gwneud cryn dipyn mwy yn awr na allent pan yn fabanod, pryd oedd angen llawer mwy o ofal a sylw arnynt.
- 136 Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth gynyddol o dymhorau'r flwyddyn gan wybod fod dail yn newid lliw ac yn cwmpo oddi ar y coed yn yr hydref.
- 137 Mae'r mwyafrif yn ennill dealltwriaeth dda o sut mae bwyd yn tyfu o ganlyniad i weithgareddau yn eu gardd ysgol. Medrant ddisgrifio'n gywir nodweddion syml y gwahanol lysiau.
- 138 Trwy eu chwarae rôl mae plant yn datblygu dealltwriaeth dda o fyd gwaith. Gan ddefnyddio eu corneli chwarae mae llawer ohonynt yn myfyrio am fannau gwyliau ac yn cynllunio pethau i'w gwneud.
- 139 Yn addysg grefyddol, mae'r mwyafrif o'r plant yn trafod egwyddorion megis cyfeillgarwch, goddefgarwch, gofalu dros eraill a chyfrifoldeb yr unigolyn dros warchod a gofalu am y byd yn dda. Gwyddant yn dda am gyfraniadau arweinwyr a chymwynaswyr. megis Dewi Sant.

Diffygion

140 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad corfforol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 141 Mae mwyafrif y plant yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad o sgiliau rheoli eu symudiadau corfforol. Dangosant ddatblygiad da o reolaeth yn eu sgiliau ysgrifennu a thynnu lluniau cynnar. Maent yn rheoli eu cyrff yn effeithiol wrth ddefnyddio'r cyfoeth o offer awyr agored. Dengys llawer o blant lefelau cydsymud da wrth symud a chydbwysu priodol i'w hoedran.
- 142 Mae'r rhan fwyaf yn parhau i symud â lefelau da o reolaeth a hyder cynyddol yn eu gweithgareddau corfforol t tu allan. Mae ychydig yn eithaf anturus yn yr hyn a geisiant ei wneud ar yr offer awyr agored.
- 143 Mae'r holl blant yn dechrau ymateb yn dda i gyfarwyddiadau addysgu yn eu gwersi addysg gorfforol ac maent yn dangos mwynhad mawr mewn gweithgaredd corfforol wrth iddynt symud o gwmpas. Dechreuant fod yn ymwybodol o'r angen am ofod a diogelwch ar adegau o'r fath.

Diffygion

144 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 145 Mae bron yr holl blant ar draws y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu dychymyg yn arbennig o dda drwy chwarae rôl bwrpasol.
- 146 Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae ymateb y plant i gerddoriaeth yn dda. Mewn caneuon ac mewn gwasanaethau ysgol-gyfan mae bron yr holl blant yn canu ac yn cydlynu geiriau a symudiadau mewn amser â'r gerddoriaeth yn llwyddiannus iawn. Mae bron yr holl blant yn ymwybodol iawn o'r gwahanol synau y maent yn gallu eu gwneud gan ddefnyddio eu cyrff. Mae llawer ohonynt yn dewis offerynnau cerdd yn sensitif wrth gynrychioli gwahanol synau
- 147 Ar draws y Cyfnod Sylfaen mae plant yn defnyddio amrywiaeth eang o arfau a deunyddiau yn gywir yn eu gwaith creadigol gan ddewis eitemau pwrpasol i fynegi eu syniadau. Maent yn dangos cryn fedr wrth fodlu clai, a'i rollo, pinsio a'i drin nes byddant yn fodlon â'r gwrthrych gorffenedig. Mae'r mwyafrif yn torri a gludo deunyddiau yn fedrus i wneud patrymau diddorol.

Diffygion

148 Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig **Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

- 149 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol yn ystod y diwrnod ysgol. Mae gan ddysgwyr ymwybyddiaeth gynyddol y gellir defnyddio'r Gymraeg i nifer o ddibenion.
- 150 Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae eu brwdfrydedd a'u hyder yn yr iaith yn cynyddu. Mae eu lefelau dealltwriaeth, a'u sgiliau ynganu a thonyddiaeth yn datblygu'n dda. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r mwyafrif ohonynt yn darllen testunau perthnasol gyda dealltwriaeth dda.
- 151 Yng nghyfnod allweddol 1, mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu ystod dda o eirfa yn cynnwys lliwiau, enwau lleoedd a bwyd. Cyfnewidiant ymadroddion cyfarwydd yn briodol wrth ddisgrifio eu teuluoedd a chywirant ei gilydd pan wneir camgymeriadau. Maent yn defnyddio ymadroddion a brawddegau syml yn gywir wrth gyfarch ei gilydd.
- 152 Llwydda'r rhan fwyaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 1 i feistroli sgiliau darllen yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn dadelfennu geiriau anghyfarwydd trwy ddefnyddio patrymau sillafu cyfarwydd ac yn trafod cynnwys eu llyfrau'n synhwyrol.
- 153 Mae dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon a chyda goslef dda, boed y cynnwys yn storiol neu ffeithiol. Wrth ddarllen ffuglen, ymhelaethant ar yr hyn sy'n apelio atynt gan fynegi barn ar y digwyddiadau. Darllenant ar goedd yn glir a hyderus ac maent yn hyfedr wrth gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau.
- 154 Mae dysgwyr cyfnod allweddol 1 yn dangos dealltwriaeth dda o sawl patrwm brawddegau yn y darnau byrion y maent yn eu hysgrifennu mewn ymateb i wahanol symbyliadau. Maent yn labelu'n gywir a sillafant eiriau cyfarwydd yn eithaf da wrth iddynt ysgrifennu am eu hoff a'u cas bethau.
- 155 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn ymestyn eu geirfa Cymraeg a'u patrymau brawddegol a ysgrifennant at wahanol ddibenion. Defnyddiant yr amser presennol yn effeithiol ac mae ganddynt eirfa dda mewn perthynas â gwahanol weithgareddau.
- 156 Mae llawer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio amser gorffennol a phresennol berfau i fynegi teimladau ac i ddisgrifio ystod o amodau

tywydd yn gywir. Gwrandawant yn dda ar ei gilydd, gan gofyn ac ateb cwestiynau mewn perthynas â gwybodaeth amdanynt eu hunain; defnyddiant eirfa berthnasol.

Diffygion

- 157 Nid oes diffygion pwysig ond mae lleiafrif arwyddocaol o'r dysgwyr yn ddihyder ac yn cael anhawster wrth ddefnyddio cystrawennau cywir yn eu gwaith ysgrifennu ac mae eu safonau wrth sillafu ar brydiau yn ansicr.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

- 158 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn creu ac yn cyfleu gwybodaeth a syniadau mewn gwahanol ffurfiau yn dda. Maent yn adnabod y gwahanol rannau sy'n perthyn i system gyfrifiadurol ac hyderus wrth ddefnyddio llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrîn. Mae'r mwyafrif yn arbed eu gwaith gyda chymorth, gyda'r mwyaf galluog yn ei arbed, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu. Maent, gyda chymorth yn bwydo gwybodaeth i gronfa ddata parod yn gywir a'i gynrychioli ar ffurf graff.
- 159 Mae'r mwyafrif yn llunio darnau o waith ysgrifenedig yn effeithiol ar y sgrîn gan addasu'r testun i gyd-fynd a lluniau o sut i wneud pitsa. Defnyddia'r rhan fwyaf becynnau arllunio yn greadigol i greu lluniau a phatrymau.
- 160 Mae sgiliau rhan fwyaf dysgwyr cyfnod allweddol 2 i drefnu, addasu a chyflwyno gwybodaeth yn dda. Dônt yn gynyddol hyderus ac annibynnol gan gadw ac adfer eu gwaith a'i addasu'n effeithiol. Maent yn darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys safleoedd ar y we a'u haddasu i bwrpasau penodol.
- 161 Erbyn diwedd y cyfnod allweddol dengys mwyafrif y dysgwyr feistrolaeth gadarn o brosesu geiriau a defnyddiant amrywiaeth eang o dechnegau'n hyderus er mwyn gosod, golygu a chreu effaith er enghraifft wrth greu stori mewn lluniau. Maent yn fedrus wrth symud testun o un ddogfen i'r llall ac wrth ddarparu cyflwyniad aml-gyfrwng. Gwnânt hefyd ddefnydd effeithiol o gyfarpar cyfrifiadurol i ehangu eu gwaith mewn sawl agwedd o'r cwricwlwm.
- 162 Gwna'r dysgwyr ddefnydd effeithiol o'r we i gywain gwybodaeth ac i anfon negeseuon trwy e-bost. Maent yn ymwybodol o'r peryglon sydd ynghlwm wrth gamddefnyddio'r rhyngwyd.

Diffygion

- 163 Nid yw gallu dysgwyr cyfnod allweddol 2 i gynhyrchu a defnyddio cronfeydd data nac i ddefnyddio taenlenni i ddadansoddi data a phrofi rhagdybiaeth wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 1 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

- 164 Mae rhan fwyaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 1 yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hardal leol. Mae ganddynt ddealltwriaeth elfennol o symbolau map ac maent yn ymwybodol o gyfeiriadau'r cwmpawd. Mae gan y mwyafrif wybodaeth dda o brif nodweddion daearyddol eu cymdogaeth a gallant eu lleoli a'u trafod yn ddeallus ar fap syml o'r ardal. Sylweddolant fod gweithgareddau pobl yn effeithio ar yr amgylchfyd.
- 165 Gall dysgwyr cyfnod allweddol 1 ddwyn i gof a mynegi barn am nodweddion lleoedd penodol er enghraifft wrth ddisgrifio taith Alun yr Arth i'r Eidal. Gallant leoli Cymru a'r Eidal ar fap o Ewrop.
- 166 Mae rhan fwyaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yn deall nodweddion eu hardal. Maent yn adnabod cymariaethau syml ac ardaloedd eraill ac yn cynnig rhai rhesymau dros nodweddion naturiol a dynol gwahanol.
- 167 Mae gallu'r mwyafrif i esbonio nodweddion naturiol ardal benodol ac i ofyn cwestiynau, er enghraifft am achosion llifogydd, yn datblygu'n dda. Defnyddiant fapiau, delweddau a TGCh yn effeithiol i ganfod a chyflwyno gwybodaeth.
- 168 Caiff dealltwriaeth y dysgwyr o'r angen i ofalu am yr amgylchedd ac o ddatblygiad cynaliadwy ei ddatblygu'n llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn mynegi barn ac yn sylweddoli bod gwahanol safbwyntiau gan eraill.

Diffygion

- 169 Nid yw sgiliau mapio dysgwyr cyfnod allweddol 2 wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid yw eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau, amcangyfrif a chyfrifo pellteroedd ac i defnyddio cyfesurynnau a chyfeirnodau yn ddigon cadarn.
- 170 Nid yw gallu dysgwyr cyfnod allweddol 2 i ddisgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau wedi eu datblygu'n ddigonol. Arwynebol yw eu gwybodaeth o fywyd mewn gwledydd eraill.

Celf a dylunio

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 171 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae dysgwyr yn defnyddio ystod eang o gyfryngau a thechnegau i gynhyrchu gwaith o safon da. Mae'r mwyafrif helaeth yn archwilio, arbrofi a dadansoddi arddulliau artistiaid sy'n gweithio mewn cyfryngau gwahanol yn dda. Gallant drafod nodweddion gwaith yr artistiaid hyn ac efelychu eu harddulliau yn effeithiol yn eu gwaith eu hunain.
- 172 Yng nghyfnod allweddol 1, gwna'r dysgwyr ddefnydd da o amrediad eang o adnoddau a chyfryngau wrth iddynt ddarlunio, peintio a chreu o arsylwadau ac o'r côf. Maent yn arddangos sgiliau torri a gludo da.
- 173 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o linell a thôn, patrwm, gwead siâp a ffurf. Maent yn cofnodi delweddau a syniadau yn effeithiol mewn sawl cyfrwng ar sail arsylwi, profiad a'r dychymyg. Gallant gymharu eu gwaith eu hunain â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill gan ddefnyddio geirfa briodol.
- 174 Ymatebant gyda dychymyg i waith Albrecht Drurer gan ddefnyddio a rheoli ystod o offer a thechnegau'n gelfydd. Maent yn arbrofi'n greadigol gyda nodweddion gweledol a chyffyrddol wrth efelychu ei waith mewn modelau. Adolygant a newidiant eu gwaith pan welant fod angen gwneud hynny yn hyderus a llwyddiannus. Mae eu gallu i werthuso eu gwaith a thrafod nodweddion da a diffygion yn datblygu'n dda.
- 175 Defnyddia'r dysgwyr yr arddangosfeydd amrywiol a welir ar furiau'r ysgol i dynnu sylw ac i drafod y gwaith da a wnânt.

Diffygion

- 176 Nid oes diffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 177 Dengys y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol ymwybyddiaeth dda o werthoedd a chredoau Cristnogol, megis rhannu ag eraill a gofalu amdanynt. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian at elusennau, datblyga'r holl ddysgwyr ymwybyddiaeth dda eu bod yn rhan o gymuned fyd-eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

- 178 Wrth ymweld â lleoedd o addoliad yn yr ardal, datblyga'r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath, megis bedyddio. Mae ganddynt wybodaeth dda o rai o brif hanesion yn y Beibl.
- 179 Trafoda'r holl ddysgwyr bwysigrwydd perthyn i deulu a chael ffrindiau. Datblygant dealltwriaeth dda o addoliad a gweddi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o ystyr gweddi'o fel ffordd o gyfathrebu â Duw.
- 180 Ar draws y ddau gyfnod allweddol, arddengys yr holl ddisgyblion wybodaeth dda o ddatliadau Cristnogol, megis y Cynhaeaf a'r Nadolig. Meddant ddealltwriaeth dda o'r digwyddiadau allweddol yn y calendr Cristnogol, megis Pasg a'r Sulgwyn.
- 181 Medda'r holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 wybodaeth dda o hanesion o'r Beibl ac amrywiaeth o storïau sy'n amlygu pwysigrwydd gwerthoedd a chydberthynas dda ag eraill.
- 182 Mae'r dysgwyr hynaf yn meddwl ac yn ffurfio eu barn eu hunain yn dda am faterion crefyddol. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da o fewn grwpiau bach yn ogystal ag mewn trafodaethau dosbarth cyfan.
- 183 Arddengys y rhan fwyaf o'r dysgwyr ddealltwriaeth effeithiol o sut y mae dangos empathi, cydymdeimlo a gwneud penderfyniadau ynghylch eu cyfrifoldebau cymdeithasol a moesol.

Diffygion

- 184 Nid oes diffygion pwysig ond cyfyng yw gwybodaeth lleiafrif o ddysgwyr parthed crefyddau eraill y byd.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

- 185 Hoffem ddiolch yn fawr i'r tîm am eu proffesiynoldeb, dealltwriaeth a'u sylwadau craff a fydd yn ein galluogi i symud ymlaen yn hyderus i barhau i godi a chynnal y safonau sy'n bodoli a gosod disgwyliadau uchel gan sicrhau dyfodol disglair i'r ysgol.
- 186 Teimlwyd fod yr ysgol wedi derbyn graddau ac argymhellion teg ac adeiladol. Sicrhawyd hyn ymhellach drwy ran weithredol y Pennaeth fel enwebai.
- 187 Mae cynnwys yr adroddiad yn destun balchder i bawb sydd yn ymwneud â'r ysgol, yn staff dysgu ac ategol, Llywodraethwyr, rhieni a phlant.
- 188 Bu cryn newid yn staffio'r ysgol yn ddiweddar ac mae'r adroddiad yn dangos ymrwymiad cadarn y staff, rhieni, staff ategol a Llywodraethwyr i'r sefydliad yn y cyfnod byr y maent wedi rhyngweithio gyda'i gilydd.
- 189 Rydym yn arbennig o falch fod yr arolygwyr yn nodi fod 'safonau cyflawniad' ac 'ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant' yn dangos 'gwelliant sylweddol' ers yr arolygiad diwethaf.
- 190 Ymfalchiwn fod yr arolygwyr wedi nodi 'o ystyried y data dros dreigl tair blynedd, mae perfformiad yn ddau gyfnod allweddol yn rhagori ar ffigyrau'r teulu, yr ALI a cenedlaethol.'
- 191 Rhoddodd canfyddiad yr arolygwyr foddhad arbennig i ni wrth iddynt nodi fod 'elfen o ragoriaeth yn ymddygiad ac ymagweddau'r dysgwyr.' Mae'r disgyblion yn esiampl i ni i gyd.
- 192 Bydd y Pennaeth, staff a'r Llywodraethwyr yn ymgorffori'r argymhellion yn flynyddol yn y CDY yn dilyn llunio cynllun gweithredu ôl arolwg. Bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn adrodd ar gynnydd bob blwyddyn.
- 193 Mae'r llwyddiant yn dystiolaeth o ymroddiad a gweithgarwch cyson holl staff dysgu ac ategol yr ysgol, holl ran -ddeiliaid yr ysgol, ynghyd a chefnogaeth ddiflino aelodau Corff Llywodraethu Ysgol Rhiwlas.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Rhiwlas
Math o ysgol	Cynradd a'r cyfnod sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	4 -11
Cyfeiriad yr ysgol	Waun Pentir Rhiwlas Bangor Gwynedd
Cod post	LL57 4EH
Rhif ffôn	01758 720765
Pennaeth	Mr Paul Carr (mewn gofal)
Dyddiad penodi	Mai 2009
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Elsbeth Mitcheson
Arolygydd cofrestredig	Mr Goronwy Morris
Dyddiadau'r arolygiad	2-4.11.09

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	2.5	2	9	5	3	4	6	6	37.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	1	2.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	14:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	amherthnasol
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	amherthnasol
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	18
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.3:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2008	90.4	94.8	92.9
Gwanwyn 2008	92.7	96.9	90.5
Haf 2008	90.4	94.8	92.9

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y disgyblion yn B2	3
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y disgyblion yn B2	9
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro

Yn yr ysgol	90.0%	Yng Nghymru	77.0%
-------------	-------	-------------	-------

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd chwe diwrnod arolygydd yn yr ysgol.

Ymwelodd yr arolygwyr â:

- 14 o wersi neu rhannau o wersi;
- pob dosbarth; ac
- addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod fel tîm ar ddechrau'r arolygiad gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni; a
- gyda'r pennaeth a'r athrawon, ynghyd â'r Cyngor Ysgol a grwpiau o ddysgwyr yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- saith o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith y dysgwyr yn y gorffennol a'r presennol.

Bu'r pennaeth mewn gofal yn ei rôl fel enwebai yn rhan o bob cyfarfod tîm.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r Corff Llywodraethol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Goronwy Morris Arolygydd. Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1,5,6 a 7 Daearyddiaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Celf
Mr William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau 1, 3, 4, 5 a 7
Dr David Evans Arolygydd tîm	Cwestiynau Allweddol 2,3 a 4 a chyfraniadau at gwestiwn 1, Cyfnod Sylfaen Cymraeg iaith cyntaf Addysg Grefyddol
Mr Paul Carr Pennaeth mewn gofal	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:

ELLIS Cymru Cyf.
Canolfan Anturiaeth Jasmine
Uned 1
Ffordd Treseder
Caerdydd
CF5 5BQ